



MARI GWILYM



Enw: Mari Gwilym

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Fe'm ganwyd ym Mhystyll, Llyn, a chefais fy magu ym Mhontllyfni.

Ble aethoch chi i'r ysgol? Ysgol Ardal Brynaerau, ger Pontllyfni, ac Ysgol Dyffryn Nantlle.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Doedd Brynaerau ddim yn ysgol fawr – ac roedd hi fel bod ynghanol teulu – oedd yn wych ar gyfer unig blentyn fel fi! Doeddwn i ddim yn

casáu'r ysgol hon o gwbl! Mae hi'n parhau i fod yn 'berl' o ysgol hyd y dydd heddiw.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Swolegydd!

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? Llyfr Mawr Hwyl; Llyfr Mawr y Plant – llyfrau dirgelwch o unrhyw fath – Elizabeth Watkin-Jones; Enid Blyton; hydynoed rhai Bryn Williams – Y March Coch, Bandit yr Andes, ac ati. ... A hefyd llyfrau Byd Natur i blant.

Beth yw eich diddordebau? Garddio gwyllt ar gyfer byd natur; Bod yn rhan o grŵp 'sgrifennu Tŷ Newydd, Llanystumdwy; mynd am dro; byddaf yn arlunio weithiau hefyd, a choginio'n ddyddiol; a dwi wrth fy modd yn arsylwi ar fyd natur – wrth fy nhraed.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Gweld fy ngŵr, sydd wedi bod yn wael iawn, yn gwella. ... Cael paned a chwerthin hefo ffrindiau. Sgwrsio efo llyffantod a phryfaid-genwair!

Beth sy'n eich gwylltio chi? Bwlio, twyll, anonestrwydd, a phobol genfigennus, neu enllibus.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?

Pan oeddwn tua phump oed. Roeddwn i wedi arfer gweld fy nhad yn sgrifennu drwy'r adeg!

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Yn aml, wrth edrych ar luniau a phaentiadau. Mae llyfrau "llun a stori" yn golygu llawer i mi, am sawl rheswm. Ac o farddoniaeth, neu wrth arsylwi ar fyd natur. Wrth glywed darn o sgwrs neu wrando ar y newyddion hyd yn oed. A hyd yn oed wrth adrodd rhigwm.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

I blant, dirgelion; gwrthdaro rhwng cymeriadau a chael datrysiad I oedolion, rydw i wedi bod yn canolbwyntio ar drosglwyddo straeon o'r llafar i'r ddalen yn ystod y blynyddoedd diwetha' 'ma. Gallwn ymestyn y gweithgaredd hwnnw i blant, gan gwmpasu 'mynegiant llafar' i ddechrau – adrodd rhyw ddigwyddiad, a'i siapio fo'n stori ysgrifenedig. Byddaf yn gwneud hynny fy hun, ac yn aml, mae'n esgor ar lawer o hwyl a miri!!

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Daliwch ati! Ychydig iawn o sgrifennwyr sydd yn cael popeth yn gywir y tro cyntaf. Sgrifennwch. Cadwch eich gwaith mewn drôr, ac ail-ddarllenwch o, ac ychwanegu ato. Dyfal donc a dyr y garreg!

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?

Y gorau yw cael ymgolli yn eich ffantasi eich hun, a wedyn rhywun yn darllen eich gwaith ac yn dweud eu bod nhw wedi mwynhau. Y gwaethaf i mi, ond nid i bawb o bell ffordd, yw cyfrifiadureg a thechnoleg – yn fy henaint – ond mae'n ofynnol i'w ddeall o'r dyddiau hyn!

Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod? 'Luned Bengoch' – Elizabeth Watkin-Jones

Hoff gymeriad o lyfr? 'STREMPAN' – Llyfrau Rala Rwdins, gan mod i wastad wedi meddwl mai FI ydy' Strempan! – Mae hi wedi nghadw fi'n "fythol wyrdd" ers blynyddoedd maith!

Hoff le? Eistedd ar y fainc yn Aberdesach, yn gwrando ar synau'r môr ... a wedyn ei throï hi am hoff le arall – sef ADRA!

Hoff fwyd? Spare-ribs sdici (ond dim ond weithia' – dim gormod!) ... Fyddai'n reit hoff o 'sosej-bins-a-chips' hefyd!

Hoff ffilm/rhaglen deledu? Hoff iawn o 'Rybish!' a 'Cynefin' ar S4C, a'r ffilm 'Jungle Book'; cartwnau 'Wallace and Gromit'; a dramâu 'cyfnod' clasurol; a chyfresi ditectifsl!

Hoff air? Labswchan, chwilfrydig goblygiadau – am reswm anghywir: mae'r gair yn fy atgoffa o gymeriad Ifan Twrci Tenna' yn Llyfr Mawr y Plant: "gobl-gobl!"

Superpower o ddewis? Cael y ddawn i allu tawelu pawb, ac felly eu rhwystro nhw rhag ffraeo. (h.y. hybu cytgord)

Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol? Dydw i ddim yn or-hoff ohonyn nhw erbyn hyn. Dydw i ddim yn berson technegol!

Beth sy'n gwneud i chi wenu? Gweld pawb yn hapus.

Swydd ddelfrydol tasech chi dim yn awdur? Dwi wedi gwneud y swydd honno – sef bod yn actores;

Top tip i ddarpar awduro: Peidiwch â bod ofn dangos eich gwaith i olygyddion a gweisg – a byddwch yn amyneddgar!